Cyfundeb Dwyrain Morgannwg

Undeb yr Annibynwyr

Cwrdd Chwarter 2 Chwefror 2011
Tabernacl, Efail Isaf
Adroddiad

Masnach Deg: Chwarae Teg!
Deg Mas(nach) o Ddeg i'r Parch Allan Pickard ar ei gyflwyniad effeithiol yng Nghwrdd Chwarter cyntaf Cyfundeb Dwyrain Morgannwg yn 2011, gynhaliwyd yn Tabernacl, Efail Isaf ar 2 Chwefror. Apeliwyd ar i fwy o eglwysi ein henwad gofrestri i'r cynllun Masnach Deg. Cam gweddol syml yw hyn ond un bwysig yng nghyd-destun lledu'r cynllun, yn arbennig gydag economi'r byd mor ansefydlog.
Mewn sesiwn hynod ddiddorol, cafwyd cwis ar Fasnach Deg, gyda rhai o'r atebion yn wir agoriad llygad. Er enghraifft, mae Cymru'n wlad Masnach Deg – y cyntaf yn y byd – gyda nifer o gymunedau'n cael eu cyfrif yn rhai Masnach Deg ee Casnewydd, Penybont, Porthcawl. Dylid diolch i gwmnioedd coffi CafeDirect, siopau Co-op a siwgr Tate & Lyle am wneud cynnyrch Masnach Deg yn gyfarwydd i ni ar silffoedd siop ledled y wlad, yn ogystal a Traidcraft a'r FairTrade Foundation.
Fodd bynnag mae angen dal ati i godi ymwybyddiaeth o'r manteision ddaw i ffermwyr yn y gwledydd tlotaf o gynnig pris sefydlog drwy'r cynllun. Gall grym gwledydd pwerus fel UDA i ddylanwadu prisiau cotwm neu rawn effeithio ar allu gwledydd Affrica ac India i gystadlu yn y marchnadoedd cynhyrchu bwyd a dillad bydeang. Ceisio creu amodau mwy cytbwys y gwna'r cynllun Masnach Deg, fel gall pobl mewn gwledydd gwresog fforddio i ddyfrhau tir yn effeithlon, cyfrannu i fudiadau cydweithredol (gan fuddsoddi'n ol i'r tir a'r broses cynhyrchu) a derbyn addysg.
Annogwyd pobl i ddangos cefnogaeth yn arbennig gydag achlysur pythefnos Masnach Deg yn digwydd o 28 Chwefror-13 Mawrth drwy ymweld a'r gwefannau: www.fairtrade.org.uk www.fairtradewales.com www.traidcraft.co.uk. Gellid cyfrannu (yn arbennig Ysgolion Sul) drwy edrych am yr ymgais i greu cadwyn o faneri lliwgar sy'n rhan o'r ymgyrch presennol.
Darllenwyd gan Elenid Jones o Effesiaid 6 – 'Ymgryfhewch yn erbyn cynlluniau'r diafol' – a gweddiwyd gan Emlyn Davies (a Parch R Alun Evans ar goffau aelodau). Cyfeiliwyd gan Ceri Williams.
Adnod yn y cyflwyniad oedd yr un a ddywed wrthym am bwysigrwydd gweithio i'r 'arall'. Wrth brynu nwyddau Masnach Deg (gan chwilio am y logo a'r label wrth wneud), cefnogi ymgyrchoedd y gwefannau a chofrestri eglwysi i'r cynllun, gellir gwneud cymaint o wahaniaeth i fywydau'r 'eraill' sydd wir angen cymorth ar draws y byd.

Ysgrifennydd
Mr Gareth Evans
33 Pendragon Close
Y Ddraenen/Thornhill
Caerdydd
CF14 9BD
Tel: (029) 2052 2302
Ebost: gareth.evans5@virgin.net

Cadeirydd
Parch Kevin Davies
31 Amalfi House
Ffordd Garthorne
Caerdydd
CF10 4DA
Tel: (029) 2047 1525
Ebost: d.k.davies@btinternet.com

Trysorydd
Mrs Heulwen Cooper
3 Porth y Castell
Y Barri
Bro Morgannwg
CF62 6QA
Tel: (01446) 733784
Ebost: heulwen@ntlworld.com